Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

CELG(4)-33-13 Papur 1

**TYSTIOLAETH YSGRIFENEDIG I'R PWYLLGOR CYMUNEDAU, CYDRADDOLDEB A LLYWODRAETH LEOL – RÔL COMISIYNYDD Y GYMRAEG A MATERION PERTHNASOL**

## Cyflwyniad

1. Pwrpas y papur hwn yw gosod tystiolaeth ysgrifenedig gerbron y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar rôl Comisiynydd y Gymraeg a materion perthnasol. Mae'r papur yn ymdrin â'r berthynas waith rhwng Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg ac yn manylu ar faterion sy'n gysylltiedig â'i gwaith.

## Cefndir

2. Cafodd swydd Comisiynydd y Gymraeg ei greu gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae Mesur y Gymraeg yn ddeddfwriaeth wirioneddol bwysig. Mae'r Mesur yn cynnwys darpariaethau ynglŷn â statws swyddogol y Gymraeg ac fe sefydlodd swyddfa Comisiynydd y Gymraeg a ddisodlodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

3. Apwyntiwyd Meri Huws i swydd Comisiynydd y Gymraeg a chychwynnodd ei swydd yn ffurfiol ar 1 Ebrill 2012. Sefydlwyd Is-adran y Gymraeg fwy o fewn Llywodraeth Cymru ar y dyddiad hwn hefyd. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn annibynnol o Lywodraeth Cymru.

4. Mae rôl Comisiynydd y Gymraeg yn cynnwys ystod eang o swyddogaethau a phwerau gan gynnwys:
   - hyrwyddo defnydd y Gymraeg
   - hwyluso defnydd y Gymraeg
   - gweithio tuag at sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg
   - gosod dyletswyddau ar bersonau sydd o fewn cwmpas y Mesur i gydymffurfio a safonau'n ymwneud â'r Gymraeg.
   - cynnal ymgynghoriad i faterion sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Comisiynydd
   - ymchwilio i unrhyw ymyrraeth honedig â'r rhyddid unigolyn i ddefnyddio'r Gymraeg gydag unigolyn arall.

## Y berthynas waith rhwng Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg

5. Mae natur y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd Iaith Gymraeg yn cael ei lywodraethu, yn rhannol, gan y Mesur. Mae'r Mesur yn darparu manylion y cyfrifoldebau a roddir ar Lywodraeth Cymru a'r Comisiynydd o ran, ond heb fod yn gyfyngedig i, agweddau ar gyllid ac adrodd. Mae'r Mesur hefyd yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw dyledus i argymhellion

ysgrifenedig y Comisiynydd, sylwadau neu gyngor pan fydd Gweinidogion Cymru yn arfer swyddogaethau sy'n ymwneud â'r sylwadau ysgrifenedig hynny.

6. Ar gyfer agweddau o’r berthynas nad ydynt wedi’u manylu yn y Mesur, mae Cytundeb Fframwaith wedi cael ei gytuno gan Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg. Mae'r cytundeb hwn yn canolbwyntio ar gyfarfodydd, rhannu gwybodaeth, cyd-weithio ac agweddau ar gyllid y Comisiynydd. Bydd y Comisiynydd yn cwrdd â'r Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros y Gymraeg ddwywaith y flwyddyn, neu'n amlach pe bai'r angen yn codi. Bydd y Comisiynydd hefyd yn cyfarfod ag uwch-swyddogion y Llywodraeth gyda chyfrifoldeb dros y Gymraeg yn chwarterol. Bydd staff y Comisiynydd yn cyfarfod â swyddogion y Llywodraeth yn ôl yr angen i drafod materion penodol.

7. Mae'r Cytundeb Fframwaith yn cael ei adolygu ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg. Disgwylir i fersiwn terfynol gael ei gytuno a'i lofnodi maes o law.

**Gweithredu Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a'r amserlen ar gyfer cyflwyno Safonau o dan y Mesur**

8. Fis Mai 2013, cyhoeddwyd y byddai’r Rheoliadau i gyflwyno’r set gyntaf o Safonau, ac i sicrhau bod y Safonau yn benodol gymwys i bersonau, yn cael eu gwneud erbyn diwedd 2014. Cyhoeddwyd amserlen yn amlinellu’r camau i’w cymryd er mwyn gwneud y rheoliadau. Mae Llywodraeth Cymru’n parhau ar y trywydd iawn i fodloni’r ymrwymiad hwn a gwneud y rheoliadau erbyn diwedd 2014.

9. Yn dilyn trafodaethau cadarnhaol gyda Chomisiynydd y Gymraeg, cytunwyd y bydd y Comisiynydd yn cynnal ymchwiliad Safonau mewn perthynas ag Awdurdodau Lleol, Parciau Cenedlaethol a Gweinidogion Cymru ddechrau 2014. Fel rhan o’r ymchwiliad, bydd y Comisiynydd yn cysylltu â’r sefydliadau hyn yn uniongyrchol i drafod y broses yn fanylach.

10. Unwaith y bydd yr ymchwiliad wedi dod i ben, bydd Gweinidogion Cymru yn cael adroddiad annibynnol, y bydd rhaid iddynt roi sylw dyledus iddo, gan y Comisiynydd.

11. Mae’r amserlen isod yn nodi’r prif gamau:
    - Gweinidogion Cymru yn cyflwyno’r Safonau drafft i’r Comisiynydd – Rhagfyr 2013
    - Y Comisiynydd yn cynnal ymchwiliad Safonau sy’n berthnasol i Awdurdodau Lleol, Parciau Cenedlaethol a Gweinidogion Cymru – Ionawr 2014 ymlaen
    - Y Comisiynydd yn cyflwyno adroddiad i Weinidogion Cymru yn crynhoi casgliadau’r ymchwiliad – Mai 2014
    - Llunio rheoliadau drafft a’r dogfennau cysylltiedig - Mehefin i Fedi 2014
    - Dadl a phleidlais ar gymeradwyo’r Rheoliadau yng Nghyfarfod Llawn y Cynulliad Cenedlaethol – Hydref/Tachwedd 2014
    - Rhagwelir ar hyn o bryd y daw’r Rheoliadau i rym fis Tachwedd 2014

12. Mae’r Mesur yn ei wneud yn ofynnol i Gomisiynydd y Gymraeg baratoi cod ymarfer i gynorthwyo sefydliadau i gydymffurfio â Safonau. Unwaith caiff y Rheoliadau hyn eu gwneud, Comisiynydd y Gymraeg fydd yn rhoi hysbysiadau cydymffurfio i sefydliadau.

13. Mae Comisiynydd Iaith Gymraeg hefyd wedi hysbysu swyddogion o gynnwys y rhaglen dreigl i gynllunio ymchwiliadau Safonau dilynol. Bydd manylion y rhaglen yn cael ei gyhoeddi gan y Comisiynydd maes o law. Bydd hyn yn amlinellu trefn blaenoriaeth o gyflwyno rheoliadau i wneud Safonau'n benodol gymwys i holl sefydliadau a restrir yn Atodlen 6 o'r Mesur Iaith Gymraeg 2011 (Cymru).

Tribiwnlys y Gymraeg

14. Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn darparu ar gyfer sefydlu Tribiwnlys y Gymraeg a fydd yn gwrando ar apeliadau yn erbyn penderfyniadau Comisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg. Bydd y tribiwnlys cyntaf i'w sefydlu o dan ddeddfwriaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

15. Bydd y Tribiwnlys wedi cael ei sefydlu'n llawn cyn i Gomisiynydd y Gymraeg roi hysbysiad cydymffurfio i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg . Bydd hyn yn sicrhau bod yr hawl i apelio ar gyfer y bobl hynny ar gael mewn perthynas â'r Safonau'r fydd wedi'u gosod.

16. Bydd y Tribiwnlys yn cynnwys Llywydd, sy'n bodloni'r amod cymhwysedd penodiad barnwrol, ar sail 10 mlynedd; aelodau sydd wedi'u cymhwyso'r gyfreithiol, sy'n bodloni'r amod cymhwystra penodiad barnwrol ar sail 5 mlynedd, a all gadeirio gwrandawiadau tribiwnlys gadeirydd, ac aelodau lleyg.

17. Bydd y broses recriwtio ar gyfer y Llywydd yn cychwyn yn gynnar yn 2014. Bydd y Llywydd yn gyfrifol am wneud y rheolau sy'n llywodraethu'r arfer a'r weithdrefn sy'n cael ei ddilyn gan y Tribiwnlys. Bydd yr aelodau cyfreithiol a lleyg yn cael eu recriwtio yn ddiweddarach yn 2014.

**Cyllid y Gymraeg 2014-2015**

18. Isod mae cyllid ar gyfer yr Iaith Gymraeg a Dysg Cymraeg o fewn y MEG Addysg a Sgiliau fel y'u hamlinellir yng Nghyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014-2015

| | 2013-14 Cyllideb Atodol Mehefin 2013 (£ ,000) | 2014-15 Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd | 2015-16 Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd |
|---|---|---|---|
| Iaith Gymraeg | 8,864 | 8,914 | 9,049 |
| Dysg Cymraeg | 16,212 | 15,462 | 14,462 |

19. Fel y nodwyd yn y Gyllideb Ddrafft 2014-15, mae cyllid ar gyfer y Weithred 'Iaith Gymraeg' (o fewn y MEG Addysg a Sgiliau) yn cynyddu o £0.050m yn 2014-15 . Mae'r cynnydd hwn yn ymwneud â throsglwyddiad rheolaidd o'r un gwerth o'r weithred 'Dysgu Cymraeg' (o fewn y MEG Addysg a Sgiliau) i integreiddio'r grant blynyddol i'r Eisteddfod Genedlaethol ar gyfer swyddog y dysgwyr gyda'r grant craidd a ddarperir i'r Eisteddfod Genedlaethol, fel rhan o'r ffocws parhaus ar resymoli grantiau.

20. Mae'r gyllideb ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg o fewn y Gyllideb Ddrafft 2014-15 wedi'i gynnwys o fewn y Weithred 'Iaith Gymraeg'. Fodd bynnag, mae swyddogion yn y broses o wahanu'r cyllid oddi wrth y Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) yr 'Iaith Gymraeg' o fewn y Weithred yma, fel bod gan Gomisiynydd y Gymraeg BEL ar wahân o 2014-15 ymlaen, er mwyn hybu tryloywder.

21. Er ein bod wedi ymrwymo i'r Gymraeg, ni allwn amddiffyn yr holl wasanaethau rhag effaith toriadau Llywodraeth y DU na'r goblygiadau o flaenoriaethu gwariant. O ganlyniad, roedd yn rhaid ymgymryd ag asesiad o'r gyllideb i ganfod lle gellid gwneud gostyngiadau a lle effaith unrhyw doriadau yn cael ei gweld lleiaf.

22. Fel rhan o'r adolygiad, penderfynwyd y byddai 10% o doriad i gyllideb Comisiynydd y Gymraeg, sy'n cyfateb i £0.410 miliwn, yn medru cael ei wneud; hysbyswyd y Comisiynydd o'r bwriad hwn.

23. Rydym hefyd yn cynnig i leihau'r Weithred 'Cymraeg mewn Addysg' o £0.75m yn 2014-15, gyda £50,000 yn cael ei drosglwyddo i'r Weithred 'Iaith Gymraeg' ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol, fel yr amlinellir ym Mharagraff 19. Mae gostyngiad pellach o £1m wedi ei gynnig ar gyfer 2015-16. Mae'r gostyngiadau hyn wedi'u cyflawni drwy leihau'r cyllidebau ar gyfer rhai o'r rhaglenni i gefnogi'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, fel y rhaglen comisiynu adnoddau, y Cynllun Sabothol a thrwy arbedion a wnaed o ganlyniad i'r prosiect Hyrwyddwyr Dwyieithog mewn Addysg Bellach cyrraedd casgliad mewn rhai colegau AB. Ar hyn o bryd mae'r gyllideb Cymraeg mewn Addysg yn cael ei dargedu at gefnogi datblygiad addysg cyfrwng Cymraeg o'r blynyddoedd cynnar i 19 mlwydd oed; gwella safonau mewn dysgu Cymraeg ar gyfer dysgwyr 3-19 oed a Chymraeg i Oedolion; a datblygiad y seilwaith ategol drwy gomisiynu adnoddau addysgu a dysg, a darparu hyfforddiant i ymarferwyr.

**Y Gynhadledd Fawr**

24. Cynhaliwyd Y Gynhadledd Fawr ar 4 Gorffennaf 2013 yn Aberystwyth. Roedd y gynhadledd yn ddiweddglo dau fis o weithgarwch i ymgysylltu â phobl ledled Cymru am ddyfodol yr iaith Gymraeg, mewn ymateb i ganlyniadau Cyfrifiad 2011. Ar 23 Hydref, 2013 cafodd adroddiad yn amlinellu adborth cyfranogwyr ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn crynhoi'r safbwyntiau a fynegwyd drwy'r arolwg ar-lein, yn y gyfres o grwpiau ffocws lleol, yn y gynhadledd genedlaethol yn Aberystwyth, a thrwy ddulliau amrywiol eraill megis trydar ac e-bost.

25. Nododd yr adroddiad y farn gadarn ymhlith y cyfranogwyr oedd yr angen i wneud mwy i ymateb i natur newidiol y cymunedau; i ddatblygu gwell dealltwriaeth o'r cysylltiadau rhwng yr iaith a'r economi; ac i adeiladu ar y llwyddiant y Gymraeg yn y system addysg. Roedd cyfranogwyr yn teimlo y dylai hyn fod yn seiliedig ar fwy o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; cymorth ychwanegol ar gyfer oedolion i ddysgu Cymraeg ac i drosglwyddo/cyflwyno'r iaith o fewn teuluoedd; a chamau i hyrwyddo gwerth yr iaith Gymraeg.

26. Cafodd Datganiad Llafar ei wneud ar 12 Tachwedd 2013 yn amlinellu ymateb cychwynnol Llywodraeth Cymru i'r Gynhadledd Fawr yn ogystal â chyfres o gamau gweithredu i gefnogi isadeiledd cymunedau Cymraeg eu hiaith ac annog y defnydd cynyddol o'r iaith Gymraeg . Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cynllun Gwella: Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu Cynllun Gwella mewnol newydd i gynyddu ymwybyddiaeth a gwella sgiliau ym maes cynllunio ieithyddol ymhlith ei staff. Bydd hyn hefyd yn ein helpu fel sefydliad i gydymffurfio â'r safonau y bydd yn cael eu gosod arnom faes o law gan Gomisiynydd y Gymraeg. Bydd y Cynllun Gwella hefyd yn canolbwyntio ar greu systemau ar waith i hwyluso prif ffrydio'r iaith Gymraeg, ac yn galluogi'r Llywodraeth i asesu gwariant yn fwy effeithiol ar yr iaith Gymraeg ar draws portffolios.
- Seilwaith cymunedol: Ymhellach i gyhoeddi TAN 20, mae angen i awdurdodau hefyd wybod sut i asesu effaith datblygiadau ar yr iaith wrth ddatblygu eu Cynlluniau Datblygu Lleol. Dros y misoedd nesaf bydd Llywodraeth Cymru, gyda mewnbwn gan arbenigwyr cynllunio allanol a Chomisiynydd y Gymraeg, yn datblygu canllawiau ar gyfer awdurdodau cynllunio i'w helpu i asesu effaith.
- Argymhellion Arolygiadau: Gweler manylion yr argymhellion yn yr adran Arolygiadau Polisi Paragraff 34.
- Cyfleoedd chwaraeon: Mae llawer o bobl ifanc wedi dweud eu bod yn awyddus i wneud gweithgareddau chwaraeon trwy gyfrwng y Gymraeg. Wrth gwrs, mae'r Urdd, Clybiau Ffermwyr Ifanc a Mentrau Iaith yn gynyddol yn darparu'r cyfleoedd hyn. Ond bydd y Safonau, maes o law, yn gallu helpu i sicrhau fod darpariaeth gan gyrff cyhoeddus ac eraill ar gael yn Gymraeg yn y gymuned ar draws Cymru i sicrhau bod y Gymraeg yn iaith fyw y tu hwnt i ffiniau'r ysgol. Mae gan y cyrff sy'n llywodraethu chwaraeon hefyd rôl a dylanwad pwysig ymhlith pobl ifanc. Mae hynny'n cynnwys Undeb Rygbi Cymru ac mae'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon wedi bod yn trafod y pwnc hwn gyda nhw yn ddiweddar.
- Technoleg: Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi £200,000 mewn chwe chynllun cyffrous fydd yn cyfrannu mewn ffordd hollol ymarferol i gynyddu'r cynnwys a'r hyn fydd yn bosib ei wneud drwy dechnoleg yn y Gymraeg. Bydd y cyllid hwn yn darparu:
  - technoleg Lleferydd i destun newydd ar gyfer yr iaith Gymraeg.
  - ap i gasglu, cyhoeddi a rhannu gwybodaeth leol trwy gyfrwng y Gymraeg.
  - dau ap newydd yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer plant o dan 7 oed.
  - ap templed fydd yn hwyluso datblygiad nifer o aps dysgu cyfrwng Cymraeg newydd.
  - ap (a gwefan gysylltiedig) ar gyfer pobl ifanc i alluogi iddynt ddarganfod pa weithgareddau iaith Gymraeg sy'n digwydd yn eu hardal.
  - gwasanaeth ar y we i gasglu cynnwys a thueddiadau Cymraeg oddi ar Twitter.

Rydym hefyd yn ystyried comisiynu cyfres o fideos a fydd yn darparu cymorth ymarferol i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ar-lein ac ar eu teclynnau. A'r flwyddyn nesaf, bydd y gronfa yn gwahodd cynigion pellach ar gyfer y flwyddyn ariannol 2014-15.

- Ap Gwybodaeth: Dros y misoedd nesaf bydd y Llywodraeth yn datblygu gwasanaeth gwybodaeth ddigidol - ar ffurf ap a gwefan - fydd yn galluogi busnesau a mudiadau i hybu eu gwasanaethau a digwyddiadau Cymraeg.
- 5 y Dydd: Yn ogystal â darparu gwybodaeth, bydd ymgyrch newid ymddygiad yn cael ei ddatblygu i annog siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg yn amlach. Mae gwaith wedi dechrau i ddatblygu ymgyrch '5 y dydd 'o safbwynt Cymraeg. Bydd yn annog pobl i wneud o leiaf 5 peth yn y Gymraeg, neu 5 gweithred gadarnhaol mewn perthynas â'r iaith, bob dydd, yn gymdeithasol neu'n broffesiynol. Er enghraifft, 5 sgwrs yn y Gymraeg; dysgwyr i ddysgu 5 gair newydd, neu i ysgrifennu 5 e-bost yn y Gymraeg bob dydd - neu gyfuniad o'r rhain. Hynny yw, creu cyfleoedd newydd i ddefnyddio'r iaith mewn sefyllfaoedd newydd, er mwyn creu arferion newydd a chynyddu hyder.

**Gweithredu Strategaeth y Gymraeg**

27. Bydd adroddiad ar gynnydd Strategaeth y Gymraeg yn cael ei gyhoeddi cyn diwedd mis Rhagfyr.

**Effaith datblygiad polisi ar yr iaith Gymraeg ar draws holl adrannau a phortffolios Llywodraeth Cymru**

28. Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen a fu'n cyfarfod yn fisol rhwng Awst 2011 ac Awst 2012. Ystyriodd y Grŵp ddefnydd y Gymraeg o fewn Llywodraeth Cymru, yn ogystal â nodi ffyrdd o wella gwasanaethau Cymraeg allanol, yn unol â'n cynllun iaith Gymraeg a'n strategaeth. Gwnaeth y Grŵp gyfres o argymhellion sy'n ffurfio'r Cynllun Gwella Cymraeg cyfredol; cymeradwywyd argymhellion y Grŵp gan y Bwrdd ym mis Hydref 2012. Nod y Cynllun Gwella yw cynyddu ymwybyddiaeth a gwella sgiliau ym maes cynllunio ieithyddol.

29. Mae Cynllun Gwella newydd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd sy'n canolbwyntio ar roi systemau ar waith i hwyluso'r gwaith o brif ffrydio'r Gymraeg. Bydd prosiect penodol yn cael ei sefydlu er mwyn ystyried dulliau asesu posib ac edrych ar ffyrdd i gryfhau'r cysylltiadau â phrosesau eraill Llywodraeth Cymru. Bydd asesu effaith yn helpu i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cadw i'r egwyddor a nodir yn y Mesur sefna ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, yng Nghymru. Yn ogystal â hyn, bydd hefyd yn rhoi sail i alluogi Llywodraeth Cymru gydymffurfio â Safonau Cymraeg newydd pan gânt eu cyflwyno, ac yn galluogi'r Llywodraeth i asesu gwariant ar y Gymraeg ar draws portffolios yn fwy effeithiol.

30. Un o argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yw cael Pencampwyr y Gymraeg ar draws adrannau'r Llywodraeth. Mae gan bob adran o fewn Llywodraeth Cymru Bencampwr y Gymraeg sydd yn uwch swyddog a enwebwyd gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol perthnasol; mae pob Pencampwr yn cael ei gefnogi gan Gydlynydd y Gymraeg. Un o dasgau allweddol y Pencampwyr yw chwilio am gyfleoedd i brif ffrydio materion yn ymwneud a'r Gymraeg ym mholisïau a phrosiectau newydd

wrth iddynt gael eu datblygu, ac wrth ariannu gweithgareddau a wneir gan drydydd parti.

**Materion y Gymraeg o fewn ardaloedd polisi eraill**

**Strategaeth Addysg cyfrwng Cymraeg**

31. Mae’r Strategaeth Addysg cyfrwng Cymraeg yn nodi uchelgais Llywodraeth Cymru o gael gwlad lle y mae addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg yn rhannau annatod o'r seilwaith addysg a man lle mae pob dysgwr yn datblygu ei sgiliau iaith Gymraeg i'w llawn botensial.

32. Cyhoeddwyd y trydydd adroddiad blynyddol, sy’n amlinellu cynnydd yn erbyn amcanion a thargedau'r Strategaeth Addysg cyfrwng Cymraeg, ym mis Gorffennaf 2013. Mae cynnydd wedi ei wneud yn erbyn 63 o'r 74 o’r camau gweithredu (85 y cant) yn y rhaglen weithredu. Mae gwaith ar y 11 o’r camau gweithredu sy'n weddill yn cael eu datblygu yn ystod 2013-14.

33. Mae'r Strategaeth yn cynnwys targedau pum mlynedd sefydlog a rhai deng mlynedd yn seiliedig ar ganlyniadau sy'n cael eu defnyddio i fonitro cynnydd wrth weithredu'r Strategaeth. Mae gwerthusiad tair blynedd o’r Strategaeth wedi cael ei gomisiynu. Mae'r gwaith eisoes wedi dechrau a bydd yn cyfrannu at yr adolygiad o'r Strategaeth yn 2015.

34. Mae datblygiadau diweddar yn cynnwys:

<u>Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg</u>

- Erbyn hyn, mae yna ofyn statudol ar bob awdurdod lleol i lunio Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg o ganlyniad i basio’r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru).

<u>Hyfforddiant ymarferwyr</u>

- Bydd Grant y Gymraeg mewn Addysg yn darparu mwy na £5.6m i awdurdodau lleol yn 2013-14 a 2014-15 i ymgymryd ag ystod o weithgareddau, gan gynnwys hyfforddiant i gynyddu nifer yr athrawon a staff cymorth sydd â sgiliau Cymraeg lefel uwch.
- Mae'r Cynllun Sabothol yn parhau i ddarparu hyfforddiant iaith Gymraeg dwys ar gyfer ymarferwyr ar amrywiaeth o lefelau mewn lleoliadau ledled Cymru. Mae'r Cynllun yn cael ei ymestyn ar hyn o bryd i ddarparu cyrsiau tan fis Awst 2017.

<u>Cymraeg ail iaith</u>

- Mae cynnydd yn cael ei wneud ar y cynllun gweithredu i ymdrin â safonau gwael mewn Cymraeg ail iaith, sy'n nodi chwe amcan i fynd i'r afael â materion a wynebir gan ymarferwyr a dysgwyr Cymraeg ail iaith. Mae cyllideb o £400k wedi ei ddyrannu i weithredu’r cynllun gweithredu dros gyfnod o bedair blynedd.
- Mae adolygiad o Gymraeg ail iaith yng Nghyfnodau allweddol 3 a 4 wedi cael ei gwblhau ac fe gyhoeddwyd yr adroddiad "Un iaith i bawb" ar 27 Medi 2013.

- Bydd argymhellion y Grŵp hwn yn dylanwadu ar sut mae'r iaith Gymraeg yn cael ei dysgu mewn ysgolion yn y dyfodol a bydd ei argymhellion yn cael eu hystyried fel rhan o'r adolygiad ehangach o asesu'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru.

Dysgu Seiliedig ar Waith ac Addysg Bellach

- Mae'r prosiect Pencampwyr Dwyieithrwydd yn mynd o nerth i nerth. Mae'r prosiect wedi cael ei ymestyn i gynnwys pob un o’r 17 o golegau addysg bellach Cymru yn ogystal â’r sector Dysgu Seiliedig ar Waith.
- Mae Sgiliaith yn parhau i gael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru i ddarparu hyfforddiant iaith a methodoleg a rhaglenni mentora i ddarlithwyr a hyfforddwyr mewn colegau AB.

Cymraeg i Oedolion

- Mae'r rhaglen Cymraeg i Oedolion yn parhau i ddenu dros 18,000 o ddysgwyr i ddysgu Cymraeg bob blwyddyn.
- Mae adolygiad yn edrych ar sut gellir gwella darpariaeth Cymraeg i Oedolion wedi ei gwblhau yn ddiweddar. Derbyniwyd adroddiad ac argymhellion y grŵp yn ystod yr haf a bydd ymateb ffurfiol i'r adroddiad hwn yn cael ei wneud maes o law.

Comisiynu adnoddau

- Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gomisiynu adnoddau dysgu ac addysgu cyfrwng Cymraeg mewn amryw o gyfryngau gan gynnwys llyfrau ac adnoddau digidol.

**TAN 20 - Cynllunio a’r Iaith Gymraeg**

35. Mae rôl yr iaith Gymraeg yn y system gynllunio wedi'i nodi ym Mholisi Cynllunio Cymru a TAN 20: Yr Iaith Gymraeg. Cyhoeddwyd TAN 20 ddiwygiedig gan y Gweinidog Tai ac Adfywio ar 9 Hydref 2013. Drwy gyhoeddi TAN 20 ddiwygiedig, fe weithredodd Llywodraeth Cymru'r ymrwymiad a wnaethpwyd yn y Strategaeth Iaith Gymraeg ar gyfer 2012-17, Iaith fyw: Iaith Byw. Fel y soniwyd eisoes, dros y misoedd nesaf bydd Llywodraeth Cymru, gyda mewnbwn gan arbenigwyr cynllunio allanol a Chomisiynydd y Gymraeg, yn datblygu canllawiau ar gyfer awdurdodau cynllunio i'w helpu i asesu effaith.

**Adolygiadau Polisi**

36. Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn edrych ar ddyfodol cymunedau Cymraeg eu hiaith

    - Yn ystod Cyfarfod Llawn yn 2012 gofynnodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Lywodraeth Cymru sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i edrych ar ddyfodol cymunedau Cymraeg eu hiaith. Mae'r Grŵp yn cael ei gadeirio gan Dr Rhodri Llwyd Morgan. Mae'r Grŵp ar fin adrodd ei ganfyddiadau a'i argymhellion, a bydd ymateb gan y Llywodraeth yn cael ei wneud maes o law.

37. Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar yr iaith Gymraeg a Datblygu Economaidd

- Sefydlodd y Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth grŵp gorchwyl a gorffen yn Rhagfyr 2012 i archwilio'r cysylltiadau rhwng yr iaith Gymraeg a datblygu economaidd. Mae'r Grŵp yn canolbwyntio ar y ffactorau sydd â pherthnasedd penodol ac uniongyrchol i dwf economaidd, darparu swyddi, creu cyfoeth a lles yr iaith Gymraeg. Mae'r Grŵp ar fin adrodd ar ei ganfyddiadau a'i hargymhellion a bydd ymateb y Llywodraeth ei wneud maes o law.

38. Adolygiad Cymraeg i Oedolion

- Ym mis Gorffennaf 2013 cafodd adroddiad "Codi Golygon" ei gyhoeddi. Hwn oedd yr adroddiad terfynol gydag argymhellion gan y Grŵp Adolygu annibynnol a oedd yn ystyried darpariaeth Cymraeg i Oedolion cyfredol ac yn y dyfodol.
- Fe wnaeth y Grŵp Adolygu 24 o argymhellion i ddatblygu'r maes ymhellach. Y prif argymhellion oedd:
  - sefydlu endid i fod yn gyfrifol am gyfeiriad strategol a chynllunio ar gyfer y maes;
  - lleihau nifer y darparwyr i tua 10-14;
  - Gwella'r broses o gynllunio darpariaeth gan wneud defnydd o ddata Cyfrifiad 2011 ac ymchwil marchnad eraill;
  - ailedrych ar gymwysterau Cymraeg i Oedolion a newid y pwyslais o achredu tuag at asesu ar gyfer dysgu;
  - gweithio gyda Llywodraeth Cymru, Comisiynydd y Gymraeg a chyflogwyr i ddatblygu strategaeth Cymraeg yn y Gweithle;
  - datblygu strategaeth e-ddysgu arloesol a fydd yn sicrhau bod e-ddysgu yn cydweddu â phrofiad y dysgwyr ar bob lefel, a
  - gweithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfleoedd i ymarfer a defnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg
- Bydd ymateb ffurfiol i'r adroddiad yn cael ei wneud maes o law.

39. Cymraeg ail iaith

- Ym mis Gorffennaf 2012, sefydlwyd Grŵp Adolygu annibynnol, a gadeiriwyd gan yr Athro Sioned Davies, i gynghori ar wella darpariaeth Gymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4. Prif amcan y Grŵp oedd ystyried pa newidiadau y dylid eu gwneud i alluogi mwy o ddysgwyr i ddefnyddio'r iaith y tu allan i'r ystafell ddosbarth, yn eu cymunedau ac mewn cyflogaeth yn y dyfodol.
- Mae "Un iaith i bawb", a gyhoeddwyd ar 27 Medi, 2013, yn adlewyrchu canfyddiadau o waith y Grŵp. Rydym yn croesawu'r adroddiad sy'n gwneud nifer o argymhellion pwysig. Byddwn yn cymryd amser i ystyried yr argymhellion yng nghyd-destun yr adolygiad ehangach o asesu a'r Cwricwlwm Cenedlaethol, a bydd gwaith yn cael ei ddatblygu mewn ymateb i'r adolygiad o gymwysterau a thrafodaeth ar ddyfodol yr iaith Gymraeg. Byddwn yn ymateb yn llawn i'r holl argymhellion hyn maes o law.

40. Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Eisteddfod Genedlaethol

- Bu'r Grŵp yn Cyfarfod yn rheolaidd yn ystod 2013 i drafod cwestiynau megis safle parhaol, strwythur y digwyddiad, denu cynulleidfaoedd newydd, yn enwedig pobl ifanc a theuluoedd. Bu'r Grŵp hefyd yn ystyried, fel rhan o'i gylch gwaith, sut y gall yr Eisteddfod Genedlaethol ac Eisteddfod yr Urdd gydweithio i rannu gwasanaethau ac adnoddau.
- Mae'r Grŵp wedi cwblhau ei adroddiad ac wedi cyflwyno argymhellion; bydd y rhain yn cael eu hystyried cyn i ymateb cael ei ddarparu. Bydd cyfarfod gyda'r Eisteddfod Genedlaethol ar 5 Rhagfyr 2013 i drafod yr argymhellion.

41. Adolygiad y Mentrau

- Mae adolygiad gan Brifysgol Caerdydd o waith y Mentrau Iaith, cynlluniau gweithredu iaith leol a chynllun Aman Tawe ar ran Llywodraeth Cymru ar fin adrodd. Bydd ymateb ffurfiol Llywodraeth Cymru yn cael ei wneud maes o law.